

NARATIF

MATH O FFURF – HUNANGOFIANT, COFIANT, STORI FER, DETHOLIAD O NOFEL, NOFEL GRAFFIG A LLYFR LLUN

CIP AR DESTUN

'Rhyddid'

Tom Lewis, Cyfres y Fflam

Y bachgen rownd bapur oedd Matthew, wedi bod yn gweithio i Mr Hughes ers rhyw chwe mis bellach. Roedd wedi dod i mewn i'r siop un bore Llun, a gofyn yn blwmp ac yn blaen i Mr Hughes a oedd ganddo swydd iddo. Fel yr oedd hi'n digwydd, roedd y bachgen rownd bapur a oedd yn gweithio iddo ar y pryd wedi bod yn hwyr bob bore ers wythnos a mwy, ac felly fe gafodd Matthew'r swydd yn y fan a'r lle. A'r cwbl a gafodd y llall oedd y sac!

"Bore da, Matthew," meddai Mr Hughes pan gerddodd drwy'r drws y bore hwnnw. Doedd Matthew ddim yn un a oedd yn defnyddio llawer o eiriau, felly fe roddodd wên yn lle. Gwenodd Mr Hughes hefyd, hanner y wên i ateb Matthew, a'r hanner arall yn chwerthiniad bach iddo fo'i hun mai'r un drefn oedd hi bob bore bellach. Y 'bore da, Matthew' gan Mr Hughes yn cael ei ateb efo dim byd ond gwên gan Matthew. Byddai rhai pobl yn meddwl bod Matthew ychydig yn haerllug ddim yn ateb, ond roedd Mr Hughes wedi dod i'w nabod yn ddigon da i wybod mai un fel yna oedd Matthew, a dyna ni. Bachgen y geiriau prin.

Y bachgen rownd bapur oedd Matthew, wedi bod yn gweithio i Mr Hughes ers rhyw chwe mis bellach. Roedd wedi dod i mewn i'r siop un bore Llun, a gofyn yn blwmp ac yn blaen i Mr Hughes a oedd ganddo swydd iddo. Fel yr oedd hi'n digwydd, roedd y bachgen rownd bapur a oedd yn gweithio iddo ar y pryd wedi bod yn hwyr bob bore ers wythnos a mwy, ac felly fe gafodd Matthew'r swydd yn y fan a'r lle. A'r cwbl a gafodd y llall oedd y sac!

'Rhyddid'
Tom Lewis
Cyfres y Fflam

CAA

'Hanas Gwanas'

Hunangofiant Bethan Gwanas
Cyfres y Cewri 36, Gwasg Gwynedd

'Hogan Dad' o'n i, yn bendant, fel y rhan fwya o ferched cyntaf-anedig, am wn i. Gan ei fod o i fwrdd yn gweithio yn y Gwanas gymaint, mi fyddwn yn ei ddilyn fel ci bach bob tro y byddai adre. Dwi'n cofio, pan o'n i tua tair a hanner, ei wyllo'n gosod ffenest newydd ac yn mynd ati o ddifri i neud joban daclus o osod y pwti. Pan aeth yn ei ôl am y Gwanas yn y Cortina brown, mi benderfynais y gallwn i roi chydig mwy o steil ar bethe.

Mi fues i'n gwthio mysedd i bob darn o bwti y gallwn ei gyrraedd – i neud patrwm del fel y byddai Mam yn ei neud ar ymyl tarten riwbob. Ges i goblyn o row ganddo fo wedyn. Do'n i ddim yn cofio be wnes i yn sgil y row, ond yn ôl Mam, mi wnes i lyncu mul a mynd i fy llofft i grio.

"Ty'd lawr n'wan, Bethan fach," galwodd ymhen ychydig.

"Dwi'm wedi gorffen crio eto!" gwaeddais yn ôl. Erbyn iddi fynd i chwilio amdana i, ro'n i wedi sgwennu dros wallau eu llofft nhw efo lipstick.

"Fyde 'na'm posib ennill y dydd efo ti," meddai Mam. Nago'n, do'n i ddim yn angel o bell ffordd.

Yn deirblwydd a thri mis, mi dorrais fy ngwallt cyrls melyn i fwrdd; dwi'n gwybod y dyddiad yn union am fod Mam wedi cadw'r cyrls mewn amlen ac maen nhw'n dal gen i. A nagoes, does gen i'm clem be ddaeth drosta i i'w torri. Ond roedd llawer iawn gwaeth i ddod...

'Hogan Dad' o'n i, yn bendant, fel y rhan fwya o ferched cyntaf-anedig, am wn i. Gan ei fod o i fwrdd yn gweithio yn y Gwanas gymaint, mi fyddwn yn ei ddilyn fel ci bach bob tro y byddai adre. Dwi'n cofio, pan o'n i tua tair a hanner, ei wyllo'n gosod ffenest newydd ac yn mynd ati o ddifri i neud joban daclus o osod y pwti. Pan aeth yn ei ôl am y Gwanas yn y Cortina brown, mi benderfynais y gallwn i roi chydig mwy o steil ar bethe.

'Hanas Gwanas'
Cyfres y Cewri 36
Gwasg Gwynedd

